# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 11 HYDREF 2024, ym MedRus 4, Penbryn.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadair); Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Mr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; Yr Athro Simon Green (tan eitem 12); Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA (tan 10.3); Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor; Mr Yusuf Ibrahim; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Dan Richards; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood (tan eitem 12); Ms Claire Vaughan a Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) (ar gyfer cofnod 11); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor.

**1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

I'r aelodau newydd canlynol:

1. Mr Paul Bevan, Aelod Annibynnol;
2. Mr Yusuf Ibrahim, Aelod Annibynnol;
3. Mr Daniel Richards, Aelod Annibynnol;
4. Yr Athro Sarah Davies, aelod o'r Senedd;
5. Dr Aloysius Igboekwu, aelod o'r Senedd;
6. Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor, Aelod o'r Weithrediaeth

Croesawyd Kylie Evans hefyd, yn dilyn ei hailbenodi fel yr aelod o staff anacademaidd ar y Cyngor.

**2. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 08 Gorffennaf a 06 Medi 2024 (COU2425-002).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2425-003).

Mae'r camau gweithredu erbyn mis Gorffennaf 2024 wedi'u cwblhau ac maent wedi'u cofnodi yn y tabl 'camau caeëdig' er cyflawnder. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y materion a oedd heb eu cyflawni.

NODWYD

Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig a CHYTUNWYD ar yr argymhellion.

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag aelodaeth o'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2024, roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi trafod yr opsiynau gyda Mathew Norman. Cynigwyd, a **CHYTUNWYD,** y byddai Mathew Norman yn dod yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad am gyfnod o 12 mis.

<u>Dysgu o Bell</u>
Cadarnhawyd bod y costau yn gysylltiedig ag amser staff, i integreiddio systemau'r partner â systemau'r Brifysgol. Dylid ychwanegu Dysgu o Bell at agenda yn y dyfodol i fonitro'r cynnydd [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

## 5. GOHEBIAETH

1. <u>Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol</u>

   DERBYNIWYD

   Gohebiaeth gan Medr yng nghyswllt canlyniad yr asesiad Adolygu Risg Sefydliadol interim diweddaraf (COU2425-004).

   NODWYD

   Mae swyddogion yn cyfarfod â Medr yn rheolaidd.

   Nododd yr aelodau y cyflwyniad ar y rhaglen Drawsnewid a roddwyd cyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor, a thrafodwyd yr angen i sicrhau bod gan y Cyngor oruchwyliaeth briodol dros y rhaglen Drawsnewid. Cytunwyd y gellid dirprwyo goruchwyliaeth o'r rhaglen i is-bwyllgor, neu i'r Weithrediaeth. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]. Fe wnaeth yr aelodau hefyd drafod cysylltu'r rhaglen drawsnewid â risgiau penodol ar y gofrestr risg gorfforaethol, fel y bo'n briodol.

   **PENDERFYNWYD**

   Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor fod y llythyr wedi dod i law, ac wedi cael ei ystyried a'i drafod.

2. <u>Canlyniadau ACF 2024</u>

DERBYNIWYD

Llythyr gan Simon Pirotte, Prif Swyddog Gweithredol, Medr (COU2425-005)

NODWYD

Mae ymateb wedi'i gyflwyno, yn pwysleisio'r gwasanaeth cyfeirio ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a lles. Mae gwaith ar y gweill rhwng y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr sydd newydd gael ei phenodi, Gwasanaethau i Fyfyrwyr, ac Undeb Aberystwyth i wella'r canlyniadau.

**PENDERFYNWYD**

Nododd yr aelodau y llythyr a'r ymateb.

**6. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-006).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Bangalore ar gyfer graddau Israddedig ac Ôl-raddedig wedi'i lofnodi.

3. Nodwyd y newidiadau i'r dirwedd wleidyddol. Mae'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau ac yn gadarnhaol, ac mae'r heriau'n cael eu cydnabod.

4. Mae UUK wedi cynhyrchu glasbrint ar gyfer Addysg Uwch, a oedd yn canolbwyntio ar Loegr yn bennaf. Byddai'r glasbrint yn cael ei gylchredeg i'r Cygor [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]. Nododd yr Aelodau bod y Weithrediaeth wedi cyfarfod â Vivienne Stern, Prif Weithredwr Universities UK, sy'n edrych ar ddulliau cyllido ac ymchwil, ond nodwyd nad oedd sawl elfen o'r gwaith yn berthnasol i Gymru.

5. Mae Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cymryd gostyngiad cyflog gwirfoddol o 5% rhwng Hydref 2024 a Gorffennaf 2025.

6. Mae'r broses o benodi i swydd y Prif Swyddog Gweithredu wedi'i ohirio am y tro. Bydd y gyllideb yn cael ei hailgyfeirio i gefnogi gwaith yn ymwneud ag arbedion a rhai meysydd penodol o fewn y rhaglen Drawsnewid.

7. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Prif Swyddog Deintyddol a'r Byrddau Iechyd ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnig darpariaeth ym maes Deintyddiaeth. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol mewn perthynas ag ysgol ddeintyddol ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Yn dilyn cais am achos busnes amlinellol ar gyfer ysgol ddeintyddol ar y cyd, mae hwn wedi'i gyflwyno, gan nodi'r gofyniad y byddai angen ei hariannu'n llawn. Rhannwyd modelau a dulliau cyflwyno posibl ag aelodau'r Cyngor, a thrafodwyd costau, seilwaith a risgiau.

8. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Medr, sy'n ymgynghori ar eu cynllun strategol.

9. Roedd yr ymdrechion i ddenu myfyrwyr yn llwyddiannus ar y cyfan, a diolchodd yr Is-Ganghellor i'r staff am eu gwaith.

10. Nodwyd y sylw sylweddol a roddwyd i weithgareddau ymchwil staff Prifysgol Aberystwyth yn y cyfnodolyn 'Nature', ac fe’u llongyfarchwyd am eu gwaith.

11. Myfyriodd y swyddogion ar ganlyniadau'r tabl cynghrair, yn enwedig y metrigau cyflogadwyedd a gwerth ychwanegol. Nododd yr aelodau nad oedd y metrigau wedi dirywio mewn rhai achosion, ond bod prifysgolion eraill wedi gwella mewn cymhariaeth. Yn ogystal â hyn, nododd yr Aelodau bwysigrwydd tablau cynghrair, yn enwedig o ran denu myfyrwyr rhyngwladol.

12. Trafododd yr aelodau gyfleoedd a chydweithrediadau ar draws y sector trydyddol, gan nodi'n enwedig benodiad Gweinidog dros Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

**PENDERFYNWYD**

13. Nodwyd yr adroddiad.

**7. CYNNIG I BENODI DIRPRWY IS-GANGHELLOR – CYFADRANNAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-007)

NODWYD

1. Penderfyniad i’r Cyngor yw penodi Dirprwy Is-Gangellorion.

2. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am arwain y ddarpariaeth Gymraeg i'r Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Fodd bynnag, bydd y rôl yn arwain y ddarpariaeth Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

3. Roedd y disgrifiad o'r rôl yn cynnig geiriad ychwanegol i alluogi staff i fedru dysgu Cymraeg.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr argymhellion.

**8. STRATEGAETH Y BRIFYSGOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-008)

NODWYD

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Cyngor ar Strategaeth y Brifysgol yn ei sesiwn wybodaeth cyn cyfarfod y Cyngor. Croesawodd yr aelodau'r wybodaeth gefndirol.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd strategaeth y Brifysgol.

**9. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (COU2425-009)

NODWYD

1. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod gwaith Undeb Aberystwyth yn cyd-fynd â nodau lles Cymru a chymhwyso'r ffyrdd gwahanol o weithio.

2. Mae Undeb Aberystwyth yn datblygu siarter academaidd ar gyfer niwroamrywiaeth, i gyd-fynd â'i blaenoriaethau yng nghyswllt niwroamrywiaeth.

3. Codwyd pryder yng nghyswllt yr amser mae'n ei gymryd i fyfyrwyr dderbyn canlyniadau mewn achosion disgyblu.

4. Gofynnodd yr aelodau a oes gan y Brifysgol ddigon o gymorth lles yn Gymraeg. Cafwyd adroddiadau bod yna restr aros am apwyntiadau yn Gymraeg, ond mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r swyddog Lles i ddod o hyd i ddatrysiad. Mae hon yn her ar lefel genedlaethol. Bydd Non Parry yn dod i Aberystwyth i gynnal sesiwn yn Gymraeg i drafod iechyd meddwl.

<u>UMCA</u>

5. Mae Elain Gwynedd wedi cael ei hailbenodi i swydd Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; y cyntaf i gael ei hailbenodi am ail dymor.

6. Mae lles yn y Gymraeg, a modiwlau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr, yn flaenoriaethau allweddol.

7. Mae Pantycelyn yn llawn am y tro cyntaf ers iddi gael ei hailagor. Mae gwaith ardderchog wedi'i wneud gyda'r gwasanaethau llety. Roedd gan UMCA bresenoldeb a stondin ym Mhantycelyn yn ystod yr wythnos groeso.

8. Mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt ar gyfer y ddawns Ryng-golegol, a fydd yn rhoi llwyfan i rai o gerddorion mwyaf blaenllaw Cymru, gan groesawu tua 700 o fyfyrwyr i Aberystwyth i ddathlu diwylliant Cymraeg.

9. Llongyfarchodd y Cadeirydd y ddau Swyddog ar gael eu hailbenodi. Llongyfarchwyd Bayanda Vundamina hefyd ar ei benodiad i Academi Cenedlaethau'r Dyfodol ar ôl proses gystadleuol.

10. Trafododd yr aelodau y cyfleoedd yng nghyswllt cenhadu sifig, dathlu diwylliant Cymru a chynnal gweithgareddau a allai fod yn ddeniadol i fyfyrwyr 6$^{ed}$ dosbarth.

**PENDERFYNWYD**

11. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 10. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio, Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid, a Mr Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2425-0110).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau gyllid WEFO, a’r pwysau yr oedd dyledwyr yn ei roi ar y llif arian. Dylai'r Cyngor ysgrifennu at WEFO os oes angen, gan anfon copi at y Gweinidogion perthnasol, i bwysleisio difrifoldeb yr effaith. Disgwylir £1.5m gan CThEF hefyd, ac mae'r Brifysgol yn aros am gadarnhad o'r sefyllfa.

2. Adroddwyd mai'r sefyllfa alldro fwyaf tebygol fyddai diffyg o £5.8m.

3. Mae swyddogion yn hyderus bod rheolaethau yn cael eu rheoli, ac mae’r Adnodd Credyd Cylchdroi yn rhoi'r gallu i reoli'r sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, gallai unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl dros y 6-9 mis nesaf fod yn hynod heriol.

4. Trafododd yr aelodau effaith swyddi gwag a sut roedd materion gweithredol yn cael eu rheoli. Adroddwyd bod y gwaith yn cael ei reoli, ond roedd yn heriol mewn rhai meysydd yn benodol. Mae'r holl waith recriwtio nad yw'n hanfodol wedi'i atal. Amlinellwyd rhai pryderon mewn perthynas â chyllidebau penodol, ond roedd yr elfennau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o nod y Rhaglen Drawsnewid i weithio'n wahanol.

5. Y sefyllfa derfynol yw diffyg o £8.1m. Cynyddodd y diffyg yn sgil symudiadau anffafriol pellach ym mis 12, ac amlinellwyd hyn yn y papur a ddarparwyd i'r Cyngor.

6. Y sefyllfa weithredol waelodol, ac eithrio'r symudiadau anffafriol, yw £5.8m, fel y rhagwelwyd. Rhannodd y swyddogion gamau adferol yng nghyswllt pob amrywiad anffafriol.

7. Nododd yr aelodau eu siom ynglŷn â’r symudiadau anffafriol, yn enwedig yn dilyn ymchwiliadau mewnol trylwyr a'r gwaith craffu allanol a wneir yn flynyddol. Cynhelir sgyrsiau pellach gyda’r archwilwyr ynglŷn â chanlyniadau yn y dyfodol. Cadarnhawyd bod y symudiadau anffafriol yn gysylltiedig â blynyddoedd blaenorol, a thrafododd yr aelodau fanteision eu trin fel addasiadau i’r flwyddyn flaenorol a chyfleu'r sefyllfa i'r rhai sy'n darllen adroddiad blynyddol 2023-24. Gellid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, yn ôl yr angen.

8. Trafododd yr aelodau y gorwariant ar ddeunyddiau traul, gan ymholi ynghylch mesurau rheoli a chyfathrebu ag adrannau i reoli cyllidebau yn briodol. Cadarnhawyd y byddai ymarfer cyllidebu ar sail sero yn cael ei gynnal i gyflawni cyllideb 2024-25; gan nodi'r gyllideb sydd ei hangen i ddarparu'r gwasanaeth ac ystyried beth sy’n hanfodol neu'n ddymunol. Mae angen gwaith a hyfforddiant pellach ar sicrhau bod cyllidebau yn cael eu cyflawni a'u rheoli'n briodol.

9. Roedd yr aelodau yn weddol sicr bod y broses gynllunio bresennol yn dangos gwelliannau yng nghyswllt incwm dangosol. Roedd y rhagolwg o fewn 1% o ran y ffigurau denu myfyrwyr. Mae rhagor o waith i'w wneud, a gofynnodd y Cyngor am sicrwydd na fyddai unrhyw beth pellach yn digwydd i newid y rhagolygon, ond nododd fod cynnydd da yn cael ei wneud.

10. Mae'r cyfamodau bancio wedi cael eu torri, ac mae'r banc wedi cael ei hysbysu. Mae'r sefyllfa waelodol o fewn y metrig derbyniol, ond mae'r gwariant ad-hoc, anrheolaidd wedi newid y sefyllfa. Mae cyfarfod yn cael ei gynnal â'r banc i drafod y sefyllfa. Oherwydd bod y telerau wedi'u torri, mae yna risg nad yw'r ddyled yn sicredig bellach. Bydd y Brifysgol yn gofyn i'r banc hepgor y prawf perfformiad penodol hwnnw, gan nodi y gellid gosod telerau ac amodau gwahanol. Heb yr hepgoriad, bydd hyn yn creu heriau sylweddol o ran ei busnes parhaus. Bydd y brifysgol yn pwysleisio ei rheolaethau ar gostau a sut mae'n mynd i'r afael â'i materion cyfredol, gan gymryd camau rhesymol i leihau'r colledion i gredydwyr.

**PENDERFYNWYD**

11. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Incwm Dangosol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2425-011).

NODWYD

1. Oherwydd y Rhaglen Drawsnewid a'r newidiadau i gofrestr risg y Brifysgol, cyflwynwyd drafft diwygiedig i'r Weithrediaeth a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, gyda chynllun ar gyfer tymor 1, a chynllun diwygiedig i'w gyflwyno i'r pwyllgor AR&S ym mis Hydref 2024 i'w gymeradwyo'n derfynol.

2. Byddai'r gofrestr risg yn gysylltiedig â'r cynllun archwilio mewnol newydd.

3. Mae'r cynllun incwm wedi'i adolygu yn erbyn y rhagolwg presennol o'r niferoedd o fyfyrwyr a ddenir. Dyddiad y cyfrifiad yw 1 Tachwedd, ond mae'r rhagamcanion presennol yn dangos ei fod o fewn 1%, gyda £700K yn llai o incwm. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4. Mae meysydd o bwysau costau ar gyfer 2024-25 wedi'u nodi, ac wedi'u hychwanegu at y targed arbedion. £3m o ddiffyg yn y gyllideb yw'r targed o hyd. Mae angen £13.9m o arbedion am y flwyddyn i gyrraedd y diffyg a dargedwyd yn y gyllideb. Ar hyn o bryd mae £9.2m wedi'i nodi erbyn mis 2.

5. Rhagwelir y bydd yr ail rownd o Ddiswyddo Gwirfoddol yn cyflawni tua £700,000 o arbedion yn ystod y flwyddyn.

6. Trafododd yr aelodau opsiynau megis gohirio'r dyfarniad cyflog staff a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Byddai gohirio'r dyfarniad cyflog staff tan fis Gorffennaf 2025, heb ôl-daliadau, yn arbed £2.6m am y flwyddyn ac yn cefnogi'r sefyllfa llif arian. Roedd y swyddogion a'r aelodau yn cydnabod y pwysau sydd ar y grwpiau o staff ar gyflogau is. Gweithredwyd y cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Mai 2024.

Datganodd yr holl aelodau staff a swyddogion wrthdaro buddiant mewn perthynas â gohirio'r dyfarniad cyflog.

7. Gofynnodd yr aelodau pa mor hyderus oedd y Weithrediaeth y gellid cyflawni'r arbedion angenrheidiol. Nodwyd bod elfen o risg i rai o'r cynlluniau, a bod llai o hyder yn rhai o'r mentrau o'u cymharu ag eraill. Mae maint yr arbedion yn sylweddol o ran canran y trosiant.

8. Holodd yr aelodau am falans yr arbedion untro yn erbyn arbedion rheolaidd, gan nodi y byddai angen amser i gwblhau unrhyw gynlluniau diswyddo. Nodwyd y byddai angen gwneud rhai newidiadau i adrannau'r Gwasanaethau Proffesiynol.

**PENDERFYNWYD**

9. Cytunodd yr aelodau ar y canlynol:
i) Dylid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol;,
ii) Dylid gohirio'r dyfarniad cyflog tan fis Gorffennaf 2025, heb ôl-daliadau.
**[GWEITHREDU:** Adnoddau Dynol i weithredu'r camau uchod].

**Gadawodd Elain Gwynedd y cyfarfod.**

3. <u>Benthyca o Waddol Parhaol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2425-012).

NODWYD

1. Yn ôl y sefyllfa ar 31 Awst 2024 mae portffolio'r Brifysgol yn werth £33m. Mae newidiadau i Ddeddf Elusennau 2022 yn caniatáu i'r Brifysgol fenthyca hyd at 25% o'i chronfa waddol heb ofyn am gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, ac i ddefnyddio'r arian yn unol â'i dibenion elusennol.

2. Amlinellodd y swyddogion y gofynion i'r Cyngor o ran benthyca ac ad-daliadau. Sicrhawyd yr aelodau fod cyngor cyfreithiol ar gyfreithlondeb y cynigion wedi'i geisio a'i gael cyn cyfarfod y Cyngor, a bod y cyngor cyfreithiol wedi'i gynnwys fel atodiad i'r cynnig er tryloywder.

3. Hylifedd yw risg ariannol mwyaf a mwyaf difrifol y brifysgol ar hyn o bryd. Trafododd yr aelodau y risgiau, y manteision a'r cyfleoedd posibl o'u cymharu â'r adenillion ar fuddsoddiad, a goblygiadau opsiynau benthyca eraill.

4. Ymddiriedwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaddolion i'r Brifysgol. Byddai'n adrodd yn dryloyw trwy greu proffil ar sut y byddai'r arian yn cael ei wario a'i ddefnyddio.

5. Mae angen cynllun talu, y bydd yn rhaid ei ad-dalu o fewn 20 mlynedd. Byddai ad-dalu yn y tymor byr yn hynod heriol, a chynigiwyd benthyca dros y cyfnod o 20 mlynedd, yn amodol ar ystyriaethau ynglŷn â risgiau posibl. Dylid cyflwyno papur i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, trwy'r Pwyllgor Buddsoddi, i amlinellu goblygiadau posibl yr hyn a hepgorir yn yr hirdymor i gwrdd â'r heriau hylifedd byrdymor [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio a Quantum Advisory].

6. Mae newid Rheolwyr Buddsoddi yn ddiweddar wedi arwain at bortffolio buddsoddi diwygiedig. Nid oedd y portffolio buddsoddi blaenorol yn cyflawni yn unol â’r disgwyl ac mae'r newidiadau wedi arwain at bortffolio buddsoddi diwygiedig a mwy moesegol. O ganlyniad, mae'r Rheolwyr Buddsoddi mewn cyfnod pontio tuag at ddadfuddsoddi, a bwriedir symud elfennau sylweddol o'r cyllid ddiwedd mis Hydref 2024. Cynigiwyd felly i symud y cyllid hwnnw i gyfrif banc y Brifysgol.

7. Trafododd ac ystyriodd yr aelodau oblygiadau gwrthod y cynnig, gan nodi bod yr holl opsiynau a dewisiadau eraill wedi cael eu hystyried.

8. Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau parhaus â Medr. Pe cymeradwyid y cynnig gan y Cyngor, gofynnodd Medr i'r Brifysgol ohebu’n ffurfiol â swyddogion Medr i ddweud nad oedd y Brifysgol yn dymuno cael benthyciad [**GWEITHREDU**: Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio].

**PENDERFYNWYD**

9. Cymeradwyodd yr aelodau'r cynnig, gan roi'r awdurdod i’r swyddogion barhau â’r trafodaethau gyda'r banc a’r archwilwyr allanol.

   Dylid cwblhau'r camau canlynol, a dylid cylchredeg y dogfennau i'r Cyngor i roi sicrwydd a thystiolaeth lawn i'r aelodau am y manylion a ddarperir yn y papur:
   i) Dylai’r swyddogion ofyn am farn gyfreithiol ffurfiol gan ei gynghorwyr cyfreithiol, a rhannu'r farn gyfreithiol â'r Cyngor.
   ii) Llunio taflen telerau masnachol, a allai fod yn seiliedig ar delerau’r Adnodd Credyd Cylchdroi cyfredol, i gefnogi'r elfennau ariannol a dangos bod benthyca o'r gwaddol er budd gorau’r Elusen.
   **[GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio].

10. Trafododd yr aelodau'r oruchwyliaeth lywodraethu briodol ar gyfer y cynllun gwariant, a chytunwyd y byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn goruchwylio'r gwaith, ac y byddai Swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif gan y Pwyllgor Buddsoddi.

11. Ni ddylai'r cynnig newid na lleihau'r flaenoriaeth o gyflawni'r mentrau sydd ar waith i sicrhau arbedion.

**Gadawodd Bayanda Vundamina y cyfarfod.**

## 11. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (COU2425-013)

NODWYD

1. Croesawyd y cyflwyniad ar yr Hen Goleg, a roddwyd yn y sesiwn wybodaeth cyn cyfarfod y Cyngor, gan yr aelodau.

2. Mae'r mater yng nghyswllt adennill TAW gan CThEM wedi'i ddatrys. Fodd bynnag, mae yna ffioedd cyfreithiol sylweddol i'w talu o'r cyfanswm.

3. Mae yna rai heriau o ran y cyfathrebu rhwng y tîm dylunio a'r tîm adeiladu, ond cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i ymdrin ag unrhyw broblemau.

4. Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r cam gweithredol yn mynd rhagddynt. Mae cynigion yn cael eu gwneud i'r Weithrediaeth yng nghyswllt cynllun busnes y gwesty, gan alluogi tîm y prosiect i symud ymlaen â'r trafodaethau allanol.

5. Mae Mather & Co yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar gyfer yr arddangosfeydd.

6. Mae'r gwaith brandio wedi'i gwblhau.

7. Yn ddiweddar, gwnaed gwaith ffilmio a datblygwyd deunydd gweledol i gefnogi'r ymdrechion i godi arian. Mae rhaglen codi arian wedi'i hail-lansio, gyda syniadau a thrafodaethau ategol yn ymwneud â'r cam gweithredol.

8. Mae rhai o'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â niferoedd yr ymwelwyr wedi'u rhagamcanu o'r newydd, oherwydd rhagdybiaethau blaenorol y byddai niferoedd yr ymwelwyr yn dychwelyd i'r ffigurau cyn Covid. Ni ddylai fod unrhyw ddyblygu â Chanolfan y Celfyddydau, a dylai eu rhaglenni a'u blaenoriaethau ategu ei gilydd, yn hytrach na hollti'r farchnad. Mae'r gweithgareddau codi arian wedi bod yn helaeth, ond mae yna rai gofynion caeth y mae angen eu hystyried yn ofalus, yn enwedig os yw niferoedd yr ymwelwyr yn wahanol i'r rhagolwg blaenorol, ac mae yna ofynion i greu swyddi penodol. Gofynnodd y Cyngor am sesiwn i ystyried yr Hen Goleg, a sut mae'n berthnasol i strategaeth y Brifysgol [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

9. Dylai'r Brifysgol fodelu potensial yr asedau sefydlog a'i ddefnyddio i wneud yn fawr o'r sefydliad er budd eang y rhanbarth.

**PENDERFYNWYD**

10. Nodwyd yr adroddiad.

**Gadawodd Jane Usherwood a Simon Green y cyfarfod.**

**12. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Strwythurau Llywodraethu: Y Pwyllgor Diswyddo</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-014).

NODWYD

1. Mae'r strwythur a'r gofynion presennol yn fiwrocrataidd ac mae'r pwyllgor yn rhy weithredol. Dylid dirprwyo'r penderfyniadau yn ymwneud â busnes y pwyllgor i Weithrediaeth y Brifysgol.

2. Dylai unrhyw risgiau i dwf y farchnad o ganlyniad i gynlluniau Diswyddo Gwirfoddol, neu ailstrwythuro ar raddfa fawr, gael eu codi drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau y cynnig.

2. <u>Adroddiad Blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-015)

**PENDERFYNWYD**

Nododd yr aelodau yr adroddiad a'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Cyngor.

## 13. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2425-016).

NODWYD

1. Yn dilyn cymeradwyo Strategaeth y Brifysgol, dylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fod yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol.

2. Mae'r Weithrediaeth yn adolygu'r archwaeth risg, a rhoddir adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor, yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

3. Mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud, gan gynnwys lleihau'r risgiau o 60 i 18; a chyflwyno sgoriau targed. Mae angen i'r Cyngor ddefnyddio'r gofrestr risg yn wahanol, a dylid neilltuo mwy o amser iddi yng nghyfarfodydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor AR&S yn ystyried y Gofrestr Risg yn fanwl yng ngwanwyn 2025, a bydd y casgliadau'n cael eu rhannu â'r Cyngor i sicrhau bod y gwaith yn cael ei herio'n weithredol.

4. Dylai pwyllgorau ganolbwyntio ar risgiau allweddol, sy'n gysylltiedig â'u cylch gorchwyl. Dylid pennu'r risgiau i'r pwyllgorau a chreu rhaglen waith i flaenoriaethu'r risgiau. **[GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio Strategol].

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 14. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2425-017);

**PENDERFYNWYD**

2. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

## 15. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd fod adroddiad archwilio mewnol ar yr Ystâd wedi rhannu argymhellion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yr adran â materion iechyd a diogelwch. Dylid rhannu'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau dros y ddau ddiwrnod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:50.